

# YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN Tawe

ADRODDIAD BLYNYDDOL  
Y CORFF LLYWODRAETHOL  
I RIENI



ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

TYMOR YR HYDREF  
2021

## **GAIR GAN GADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHOL**

Mae'n rhaid cyfaddef pan ysgrifennais y llythyr ar gyfer adroddiad llynedd, nid oedd gennyf unrhyw ddisgwyliad ein bod yn wynebu blwyddyn academaidd lawn wedi ei effeithio gan Covid-19.

O ganlyniad i'r pandemig wrth gwrs, mae'r flwyddyn academaidd 2020/21 wedi bod yn heriol mewn sa wl ffordd. Fodd bynnag, rwyf wrth fy modd ac yn hynod falch o bopeth a gyflawnwyd yn y cyfnod, a hoffwn adlewyrchu a mynegi fy niolch i holl deulu Ysgol Bryn Tawe am y gwytnwch a ddangoswyd dros y 18 mis diwethaf.

Mae ein myfyrwyr wedi ymateb yn arbennig drwy gydol yr amser. Maent wedi croesawu dosbarthiadau ar-lein, ac wedi dychwelyd i'r ysgol a'r ystafell ddosbarth, maent wedi dangos agwedd ac ymddygiad gwych, yn enwedig o ran y cyfyngiadau diogelu amrywiol megis defnyddio mygydau a chadw pellter. Rwy'n teimlo bod angen i mi roi cydnabyddiaeth benodol i'r rheini ym mlynedd 11, 12 a 13 am y ffordd y maent wedi addasu, nid yn unig i'r ffyrdd brys o ddysgu, ond hefyd am fynd uwchlaw a thu h wnt ar gyfer yr asesiadau gofynnol, yn ogystal â'r gwaith. ac ymroddiad yn eu cymwysterau. Fel rhieni a gwarcheidwaid rwy'n gwybod eich bod chi hefyd wedi bod yno gyda chefnogaeth ac anogaeth.

Mae ein staff wrth gwrs wedi wynebu heriau digynsail. Maent hwythau hefyd wedi symud rhwng darparu gwersi ar-lein ac yn yr ystafell ddosbarth ac, yn ystod cyfnodau estynedig o ddysgu gartref, maent wedi gwirio'n frwd gyda'u myfyrwyr o safbwynt llesiant gan gynnig yr holl gefnogaeth y gallant. O safbwynt academaidd, ni ddylid tanamcangyfrif y gwaith ychwanegol sy'n ofynnol er mwyn cwrdd â gofynion CBAC ar gyfer Graddau a Benderfynir mewn Canolfannau, a gwn fod yr athrawon a'r staff cymorth wedi dangos gwaith tîm gwych wrth sicrhau canlyniadau teg a haeddiannol i'n pobl ifanc a'u dyfodol.

Unwaith eto, diolch o galon i bob disgybl, rhiant / gwarcheidwad ac aelod o staff.

Oherwydd amgylchiadau'r flwyddyn ddiwethaf, rwy'n siŵr y byddwch yn deall nad oes unrhyw un o'r di gwyddiadau adrannol arferol na'r gweithgareddau allgyrsiol i siarad amdanynt yn yr adroddiad eleni. Fodd bynnag, mae'n bleser gennyf nodi, ar adeg ysgrifennu, lle mae canllawiau'r Llywodraeth yn caniatáu i'r rhain ailgychwyn yn araf. Mae eisoes wedi bod yn wych gweld ein pobl ifanc yn cymryd rhan mewn digwyddiadau megis rygbi a gemau pêl-droed.

I'r rhai sydd wedi ymweld â'r ysgol yn ddiweddar, efallai eich bod wedi sylwi Ysgol Gynradd newydd Tirdeunaw wedi agor,. Gallaf hefyd gadarnhau bod cynlluniau cyffrous ar y gweill i wella ein cyfleusterau yn Bryn Tawe dros 4/5 mlynedd nesaf. Gwyliwch allan am fwy o fanylion, ond byddwch yn gwerthfawrogi, fel minnau, fod hyn i gyd yn hynod bwysig ar gyfer darparu dyfodol i addysg Gymraeg yn Abertawe.

Esther Wood  
Cadeirydd  
Corff Llywodraethu Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

Cadeirydd Y Llywodraethwyr: Mrs Esther Wood  
Clerc i'r Llywodraethwyr: Mrs Eirian Leonard  
d/o Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe 01792560600

## **CLERC**

Mrs Eirian Leonard

## **PENNAETH**

Mr Simon Davies

## **CYMUNEDOL**

Mr Heini Gruffudd - 03/11/2023

Mrs Sarah East - 22/11/2023

Mrs Carys Davies-08/03/2025

Mrs Davida Lewis - 03/11/2023

Mr Alun Jones Vice Chair - 16/11/2023

## **ALL**

Mr Richard Taylor-21/04/2025

Mr David Williams- 27/02/2023

Parch Eirian Wyn - 15/10/2023

Mrs Eleni Cordingley-26/11/2024

Mrs Margaret Greenaway 21/08/2023

## **RHIENI**

Mrs Janet Rowlands -05/10/2022

Mrs Esther Wood Chair -05/10/2022

Mrs Bethan James – 17/11/2025

Mrs Adele Thomas -09/12/2023

Mrs Helen Pritchard -17/04/2022

Mr Benjamin Saunders-21/10/2024

## **STAFF**

Mr Chris Shaw (athro) -30/09/2024

Mrs Naomi Tootill Evans (athro)- 12/03/2022

Mrs Jayne Bowen (Staff) - 11/11/2023

Y mae'r cyfansoddiad yn unol â'r Erthyglau Llywodraethu perthnasol yn seiliedig ar nifer y disgyblion o Fedi 2020:

6 rhiant lywodraethwr, 5 llywodraethwr AALI, 2 athro lywodraethwr, 1 staff lywodraethwr, 5 llywodraethwr cyfetholedig a'r Pennaeth = cyfanswm 20 Llywodraethwr

### **Canllawiau statudol diwygiedig i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau statudol diwygiedig i Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 mewn perthynas â'r cyfarfodydd Adrodd i Rieni Blynyddol. Mae'r trefniadau newydd yn golygu nid oes gofyniad bellach ar gyrff llywodraethu ysgolion i gynnal cyfarfod blynyddol i rieni. Er hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai rhieni fod â'r gallu i drafod materion sydd o bwys iddynt a chyrrff llywodraethu.

- Mae'n ofynnol o hyd i gyrff llywodraethu gynhyrchu a dosbarthu adroddiad blynyddol i'r rhieni.

STATEMENT OF ACTUAL EXPENDITURE 2020-2021 FINANCIAL YEAR

|  | Delegated Expenditure | Non-Delegated Expenditure | Total Net Expenditure |
|--|-----------------------|---------------------------|-----------------------|
|  | £                     | £                         | £                     |
| Cyflogau Athrawon / Teachers Salaries            | 3156486               | 10918                     | 3167404               |
| Cyflogau / Salaries                              | 762640                | 5429                      | 768069                |
| Costau eraill cyflogwyr / Other Employee Costs   | -45                   | 732                       | 686                   |
| Adeilad / Premises                               | 44448                 |                           | 44448                 |
| Trafnidiaeth / Transport                         | 2805                  | 264873                    | 267678                |
| Cyflenwadau a gwasanaethau / Supplies & Services | 628322                |                           | 628322                |
| Gwasanaethau'r sir/ Recharges                    |                       | 200                       | 200                   |
|  |                       |                           |                       |
| <b>Gross Expenditure</b>                         | <b>4594655</b>        | <b>282152</b>             | <b>4876807</b>        |
|  |                       |                           |                       |
| Incwm grantiau /Grant Income                     | -503793               |                           | -503793               |
| Incwm arall / Other Income                       | -229027               | 21                        | -229006               |
|  |                       |                           |                       |
| <b>Incwm gros / Gross Income</b>                 | <b>-732820</b>        | <b>21</b>                 | <b>-732799</b>        |
|  |                       |                           |                       |
| <b>Gwariant Net / Net Expenditure</b>            | <b>3861835</b>        | <b>282173</b>             | <b>4144008</b>        |
|  |                       |                           |                       |

| RESERVES:  | £             |
|--|---------------|
| DYRANIAD FFORMIWLA TERFYNOL:FINAL FORMULA ALLOCATION:                                    | 4280725       |
| CYFANSWM GWARIANT NET:<br>TOTAL NET EXPENDITURE:   | 3861835       |
| <b>Trosglwyddo o / I wrth gefn TRANSFER TO / (FROM) RESERVES:</b>                        | <b>41890</b>  |
| BALANS AGORIADOL AR GRONFEYDD WRTH GEFN 01/04/20<br>OPENING BALANCE ON RESERVES 01/04/20 | 81677         |
| <b>BALANS CAU AR GRONFEYDD WRTH GEFN: 31/03/21</b>                                       | <b>500567</b> |
| <b>CLOSING BALANCE ON RESERVES: 31/03/21</b>   |               |

Ni hawliwyd unrhyw gostau teithio a chynhaliaeth gan aelodau'r Corff Llywodraethol. Mae'r Llywodraethwyr yn ddiolchgar i'r ysgol am ddarparu lluniaeth ysgafn o de/coffi a bisgedi ar gyfer cyfarfodydd y Corff Llywodraethol. Diolchwn hefyd i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith diflino a chyson wrth godi arian tuag at adnoddau i'r ysgol.

**Dyma'r linc ar gyfer datganiad "section 52" a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol**

## MANYLION ARHOLIADAU ALLANOL 2020

Hoffai'r Llywodraethwyr longyfarch disgyblion a staff yr ysgol ar eu llwyddiant unwaith eto eleni yn yr arholiadau allanol.

### TGAU

|                | % Disgyblion a enillodd 5 neu fwy o raddau TGAU |        |
|----------------|---|--------|
|                | A* - C  | A* - G |
| Bryn Tawe 2021 | 82.5  | 100    |
| Bryn Tawe 2020 | 85.7  | 99.2   |
| Bryn Tawe 2019 | 72.7  | 98.3   |
| Bryn Tawe 2018 | 79.5  | 100    |

|                | % Disgyblion a enillodd 5 neu fwy o raddau TGAU gan gynnwys Maths a Chymraeg neu Saesneg | Sgor Pwyntiau wedi ei gapio ( yr 9 canlyniad gorau) |
|----------------|--|---|
| Bryn Tawe 2021 | 70.8   | 392   |
| Bryn Tawe 2020 | 65.9   | 374   |
| Bryn Tawe 2019 | 49.6   | 364   |
| Bryn Tawe 2018 | 64.8   | 365   |

### SAFON UWCH

|                | % Disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer 3 bwnc neu ragor a enillodd 3 Safon Uwch neu ragor |        |
|----------------|--|--------|
|                | A* - C   | A* - E |
| Bryn tawe 2021 | 58.7   | 80     |
| Bryn Tawe 2020 | 50.1   | 73.8   |
| Bryn Tawe 2019 | 50   | 77.3   |
| Bryn Tawe 2018 | 48.8   | 67.4   |

### Manylion cyrchfannau disgyblion (2021).

- Aeth 63% o gohort 2021 ymlaen i Addysg Uwch gyda 91% ohonynt yn cael lle yn eu dewis cyntaf neu ail ddewis.
- Penderfynodd 26% i wneud prentisiaeth neu ymuno a'r byd gwaith ar ole u cyfnod yn y chweched dosbarth.
- Daeth 5% yn ôl i flwyddyn 14.

# CWRICWLWM

## **Y DEFNYDD O'R GYMRAEG**

Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol a disgwylir i staff a disgyblion ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn unig ar dir yr ysgol. Dysgir pob pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg heblaw Saesneg.

## **CYFNOD ALLWEDDOL 3**

Ym Mlwyddyn 7 bydd yr holl ddisgyblion yn dilyn cwricwlwm eang wedi'i seilio ar sgiliau a chymhwysedd a fydd yn eu galluogi i ddatblygu'n ddysgwyr effeithiol a datblygu sgiliau ar gyfer bywyd a dysgu gydol oes. Addysgir Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Addysg Gorfforol, Ieithoedd Tramor Modern, Dylunio a Thechnoleg, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn gwersi penodol. Drwy gyfrwng ein cwrs CAMU sy'n ffocysu ar ddysgu a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd drwy ddull thematig mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddatblygu dealltwriaeth o Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol, Drama, Cerdd, a Chelf. Darparir Addysg Bersonol a Chymdeithasol drwy gyfrwng chwe bore ffocws drwy gydol y flwyddyn.

## **CYFNOD ALLWEDDOL 4**

Astudir pynciau craidd gorfodol gan bob disgybl - Cymraeg, Saesneg, Mathemateg, Gwyddoniaeth, Technoleg Gwybodaeth, Addysg Gorfforol, Addysg Grefyddol, Addysg Bersonol a Chymdeithasol ac yna cynigir pedwar dewis allan ystod eang o bynciau academiaidd a galwedigaethol yn unol â gweledigaeth Llwybrau Dysgu 14-19. Ceir dilyniant a llwybr dysgu perthnasol o Gyfnod Allweddol 4 i mewn i Gyfnod Allweddol 5 - sef y Chweched Dosbarth. Rydym wedi datblygu partneriaethau cryfion gyda nifer o ddarparwyr lleol addysg ôl 14. Mae cwricwlwm dewisol yr ysgol ar gyfer 2017-18 yn cynnwys; Gwyddoniaeth Triphlyg, Daearyddiaeth, Hanes, Addysg Grefyddol, Twristiaeth a Hamdden, Celf, Cerdd, Drama, DT - deunyddiau gwrthiannol, DT - tecstilau, Arlwyyo, Electroneg, TGCh, Ffrangeg, Almaeneg, Astudiaethau Cyfryngau, Astudiaethau Busnes, Addysg Gorfforol, Adeiladu, Trin Gwallt, Datblygiad Plentyn, Iechyd a Gofal, Bagloriaeth Cymru, ASDAN Cope. Hefyd cynigir cyrsiau BTEC mewn Chwaraeon a Gwasanaethau Cyhoeddus.

## **CYFNOD ALLWEDDOL 5**

Rydym wedi sefydlu partneriaeth arloesol gydag Ysgol Gyfun Gŵyr er mwyn creu Partneriaeth ôl 16 Bryn Tawe - Gŵyr. Y bartneriaeth yw prif ddarparwr addysg ôl 16 cyfrwng Cymraeg yn sir Abertawe. Am fanylion llawn darpariaeth y Chweched Dosbarth, gofynnwch am Brosiectws Y Chweched Dosbarth.

## **CEFNOGAETH I DDYSGU**

Os yw myfyrwr i ddatblygu'n ddysgwyr llwyddiannus bydd angen cefnogaeth ac arweiniad arnynt. Bydd y staff addysgu yn pennu'r hyn a ddisgwylir gan fyfyrwr ym mhob Cyfnod Allweddol ac yn monitro'r cynnydd tuag at y targedau hynny. Os bydd

arwyddion bod myfyrwyr yn methu â chyrraedd y disgwyliadau hynny, bydd yr ysgol yn darparu rhaglen arweiniad a fydd yn benodol i'r myfyriwr unigol. Bydd ffocws ar ddatblygu'r sgiliau ar gyfer dysgu effeithiol, gan gynnwys derbyn cyfrifoldeb, hunan- wybyddiaeth, meddwl yn greadigol a dadansoddi, gweithio fel tîm, pennu nodau, cynllunio eu dysgu eu hunain, cofnodi cynnydd, asesu perfformiad, adfyfrio ar yr hyn a ddysgwyd a dathlu llwyddiant.

### **DIWALLU ANGHENION YR HOLL DDISGYBLION**

Bydd Bryn Tawe yn gofalu am yr holl ddisgyblion. Bydd ein Trefniadau Arweiniad a Llês wedi'u cynllunio er mwyn sicrhau bod disgyblion yn byw bywydau hapus, cytbwys a bod eu gwaith a'u cynnydd yn cael ei werthuso'n rheolaidd ac yn ofalus. Bydd cynnydd yn cael ei asesu'n anffurfiol yn ystod y tymor, ac yn ffurfiol trwy broffion uned.

Bydd y disgyblion hynny sy'n arddangos galluoedd arbennig neu a fyddai'n hoffi estyn a datblygu eu sgiliau mewn meysydd penodol yn cael cynnig cyfleoedd i ehangu a llwybrau cyflym.

Ar y llaw arall, lle bo' disgyblion yn cael agweddau arbennig o'r cwricwlwm yn fwy anodd neu fod angen cefnogaeth arnynt i ddysgu, bydd adnoddau ychwanegol ar gael trwy sesiynau cefnogi a/neu hyfforddi penodol gan fentoriaid dysgu yn ogystal â chefnogaeth yn yr amgylchedd dysgu.

### **ANGHENION ADDYSGOL ARBENNIG PENODOL**

Mae'n well gan Ysgol Bryn Tawe yr ymagwedd ysgol-gyfan ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, sy'n darparu:

addysg o safon i BOB disgybl  
cyfleoedd addysgol cyfartal i BOB disgybl

Gellir crynhoi cydraddoldeb fel a ganlyn:

- yr hawl i dderbyn addysg gyda chyfoedion
- yr hawl i ddisgwyl addasu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigol
- yr hawl i ystyried bod cyfraniad unigolyn yn gydradd â chyfraniad eraill.

### **YN YMARFEROL BETH MAE HYNNY'N GOLYGU**

• Bydd pob adran yn gyfrifol am yr cynlluniau gwaith ar gyfer yr ystod gallu **lawn**. Bydd disgyblion AAA yn rhan o'r cynllunio cwricwlwm a dosbarth ac nid yn ychwanegiad ato.

• System hyblyg, lle mai integreiddio yw'r norm a bod tynnu allan yn digwydd am resymau penodol a gytunwyd gan yr adrannau prif ffrwd ac AAA.

• Mewn amgylchiadau arbennig, mae'n bosib y bydd galw am grwpiau dysgu arbennig er mwyn darparu profiadau addysgol addas lle gall disgyblion ag anawsterau dysgu brofi llwyddiant

• Bydd yr Adran Mynediad i Ddysgu:

Yn rhoi cyngor ar addasrwydd deunyddiau, dulliau a gwahaniaethu

Yn rhoi cyngor ar anghenion penodol disgyblion unigol

Yn nodi, yn hysbysu ac yn cydlynu targedau cyfredol a thymor hir ar gyfer disgyblion AAA unigol ar draws y cwricwlwm

• Yr Adran Mynediad i Ddysgu fydd yn gyfrifol am nodi'r disgyblion trwy archwiliad ysgol-seiliedig. Bydd hyn yn cynnwys asesiad diagnostig, cefnogaeth a swyddogaethau monitro ar gyfer y grŵp hwn.

Bydd cefnogaeth yn y dosbarth yn canolbwyntio ar y gweithgareddau hynny lle mae angen cefnogaeth ac arweiniad penodol  
O ran disgyblion â datganiadau, bydd yr Adran Mynediad i Ddysgu yn cyfrannu at gydgyssylltiad gyda staff arbenigol megis y Gwasanaeth Seicoleg Addysg a'r Gwasanaeth Cefnogi. Bydd yr Adran yn gyfrifol am fonitro cynnydd y disgyblion â datganiad ac yn cynghori'r Pennaeth a'r athrawon prif ffrwd.

## **IECHYD A DIOGELWCH**

Trwy weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod ac eraill, y mae'r ysgol yn ffocysu ar gydymffurfio gyda holl ofynion statudol Iechyd a Diogelwch er mwyn sicrhau bod disgyblion, staff ac ymwelwyr yr ysgol yn ddiogel ar bob achlysur. Y mae gan yr ysgol Bolisi Iechyd a Diogelwch sy'n cael ei ddiwygio'n flynyddol. Yn ogystal, mae'r ysgol yn ymrwmo i bolisi o Fwyta'n Iach ac o ganlyniad rydym wedi lleihau ar argaeledd bwydydd megis sglodion yn y ffreutur. Hefyd, y mae'r ffreutur yn cydymffurfio yn llwyr â chanllawiau Bwyta'n Iach Llywodraeth Cymru.

Mae nifer o doiledau ar draws yr ysgol, yn cynnwys toiledau anabl. Darperir peiriant sebon a sychwr dwylo ym mhob un. Fe fydd y toiledau yn cael eu harolygu yn gyfnodol yn ystod y dydd gan y gofalwr/rheolwr safle.

Adnewyddir ac adolygir polisïau'r ysgol yn flynyddol gan y llywodraethwyr yng nghyfarfod corff llawn y llywodraethwyr yn nhymor yr hydref.

Adnewyddir prosiectws yr ysgol ym mis Medi yn flynyddol.

Llwyddodd yr ysgol i ennill Cam 5 yng Nghynllun Ysgolion Iach Abertawe a llwyddodd y Cyngor Ysgol i newid bwydlen y ffreutur i gynnig mwy o fwydydd iach i'r disgyblion.

## **Diogelu ac Amddiffyn Plant**

Yn Ysgol Bryn Tawe rydym yn ymroddedig i ddiogelu a hybu lles pob dysgwr. Rydym yn disgwyl i bob aelod o staff, disgyblion, llywodraethwyr, gwirfoddolwyr ac ymwelwyr i rannu'r un ymrwymiad. Mae gennym bolisïau clir a chynhwysfawr am ddiogelu pawb sydd yn gweithio ac yn ymweld â'r ysgol. Mae'r ysgol yn dilyn trefniadau "Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008". Am fanylion llawn neu gopi o'r polisi cysylltwch â'r ysgol. Os ydych am drafod unrhyw faterion yn ymwneud â Diogelu yn yr ysgol cysylltwch â naill ai ein Hathro Dynodedig Diogelu yn yr ysgol, sef Mr Mark Bridgens (Pennaeth Cynorthwyol) neu'r Dirprwy Athro Dynodedig ar gyfer Diogelu, Mrs Bethan Williams (Cydlynydd ADY). Yn ogystal, Mrs Eleni Cordingley yw'r Llywodraethwyr cyswllt ar gyfer Diogelu yn yr ysgol. Am fanylion cyswllt y llywodraethwyr, cysylltwch â rheolwr busnes yr ysgol, Mrs Eirian Leonard.



## **PRESENOLDEB**

|             | <b>Presenoldeb %</b>              | <b>Absenoldeb gyda chaniatâd %</b> | <b>Absenoldeb heb ganiatâd %</b> |
|-------------|-----------------------------------|------------------------------------|----------------------------------|
| Ysgol Gyfan | Ddim yn berthnasol oherwydd COVID |                                    |                                  |
| Abertawe    |                                   |                                    |                                  |
| Cymru       |                                   |                                    |                                  |

Fe fydd y Llywodraethwraig Cyswllt Presenoldeb – Mrs Esther Wood yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Llês a Mr Mark Bridgens i fonitro a gwella presenoldeb yr ysgol. **Targed presenoldeb yr ysgol: 95%**

## **GWEITHGAREDDAU ALLGYRSIOL AC YMGLYMIAD CYMUNEDOL**

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf gyda'r gymuned. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau lleol. Fe fydd y plismon cymunedol yn ymweld â'r ysgol yn gyson, i gynnal sesiynau ABCH, gwasanaethau ysgol ac i gynnig cefnogaeth deuluol yn ôl yr angen. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n agos gyda Menter Iaith Abertawe drwy gynnal nifer o weithgareddau yn y gymuned. Fe fydd yr ysgol yn cefnogi nifer o elusennau yn y gymuned.

Mae'r Llywodraethwyr wrth eu boddau yn gweld yr amrywiaeth o gyfleoedd allgyrsiol a ddarperir gan y staff i'r disgyblion ac yn ymfalchïo yn y llwyddiannau ym myd chwaraeon, eisteddfodau, cyngherddau, cystadlaethau, ymgyrchoedd dyngarol a nifer o feysydd eraill. Llongyfarchiadau gwresog i'r holl ddisgyblion ar eu llwyddiannau a diolch arbennig i'r staff am eu hymdrechion parhaus i sicrhau cwricwlwm allgyrsiol mor gyfoethog.

Yn anffodus oherwydd COVID nid oedd unrhyw weithgareddau allgyrsiol

## DYDDIADAU TYMHORAU A GWYLIAU YSGOL 2022-2023

| Tymor                 | Tymor yn dechrau       |                            | Gwyliau Hanner Tymor     |                            |                          | Tymor yn gorffen              |
|-----------------------|------------------------|----------------------------|--------------------------|----------------------------|--------------------------|-------------------------------|
|                       |                        |                            | Dechrau                  | Gorffen                    |                          |                               |
| <b>Yr Hydref 2022</b> | Dydd Llun<br>5 Medi    | Dydd Gwener<br>28 Hydref   | Dydd Llun<br>31 Hydref   | Dydd Gwener<br>4 Tachwedd  | Dydd Llun 7<br>Tachwedd  | Dydd<br>Gwener 23<br>Rhagfyr  |
| <b>Y Gwanwyn 2023</b> | Dydd Llun<br>9 Ionawr  | Dydd Gwener<br>17 Chwefror | Dydd Llun<br>20 Chwefror | Dydd Gwener<br>24 Chwefror | Dydd Llun 27<br>Chwefror | Dydd<br>Gwener 31<br>Mawrth   |
| <b>Yr Haf 2023</b>    | Dydd Llun<br>17 Ebrill | Dydd Gwener<br>26 Mai      | Dydd Llun<br>29 Mai      | Dydd Gwener<br>2 Mehefin   | Dydd Llun 5<br>Mehefin   | Dydd Llun<br>24<br>Gorffennaf |

### Gwyliau Banc

Gwener y groglith - 7 Ebrill 2023

Llun y Pasg - 10 Ebrill 2023

Gwyl Banc Calan - 1 Mai 2023

Gwyl Banc y Gwanwyn - 29 Mai 2023